| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 14 MEDI 2010 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Strategaeth Datblygu Aelodau a Disgrifyddion Rolau ar gyfer Aelodau Etholedig. |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I gefnogi datblygu aelodau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau/Swyddog Monitro |
| **GWEITHREDU:** | Bod pob aelod unigol yn ymrwymo i arwyddo i'r disgrifyddion rolau perthnasol a bod Cyngor Sir Ynys Môn yn mabwysiadu, ar unwaith, yr amrediad llawn o ddisgrifyddion rolau ar gyfer yr amryfal swyddogaethau sydd gan aelodau etholedig. |

Mae'r Gweithgor Datblygu Aelodau a sefydlwyd yn ddiweddar, ac a gefnogir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi datblygu Strategaeth Datblygu Aelodau fel sail ar gyfer y nod, yn y pen draw, o ennill statws Siarter ond mae hefyd yn rhoi i'r gweithgor bwynt cyfeirio a ffocws clir.

Yn ei hanfod mae'r strategaeth yn ymwneud â deall anghenion aelodau fel bod modd eu cefnogi'n well yn eu gwaith trwy ddarparu trefniadau datblygu priodol sy'n cael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n barhaus i sicrhau eu bod yn addas i'r pwrpas ac o'r safon iawn.

Un o brif elfennau a chonglfeini'r strategaeth yw'r disgrifyddion rolau.  Mae disgrifyddion rolau, neu ddisgrifiadau swydd fel yr ydym yn eu hadnabod, ynghyd â manylebau personol, yn gyfrwng cyfarwydd yn y byd gwaith.  Bwriad y disgrifyddion rolau, fel yn achos disgrifiadau swyddi, yw nodi cyfrifoldebau a swyddogaethau aelodau etholedig.  Maent yn rhoi eglurder i'r aelodau ynghylch eu rolau ond gallant fod yn dystiolaeth ddefnyddiol i'r etholwyr bod aelodau yn gwneud swydd broffesiynol sydd wedi ei diffinio'n glir.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlC), mewn ymgynghoriad gydag aelodau etholedig led led Cymru, wedi creu set o ddisgrifyddion rolau cyffredinol a manylebau personol ar draws amrediad o rolau.  Mae'r rhain yn gonglfaen y Siarter Datblygu Aelodau a ddatblygwyd i roi strwythur a momentwm i'r corff cynyddol o wasanaethau cefnogol ar gyfer aelodau etholedig o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru.  Mae awdurdodau sydd wedi ennill statws Siarter yn cael eu hystyried fel rhai sy'n ymrwymedig i wella safonau a datblygu arferion da.

Mae gan yr holl aelodau ddisgrifyddion rolau unigol a bydd angen iddynt eu harwyddo a'u cytuno. Lle mae aelodau yn cyflawni mwy nag un rôl rhagwelir y byddai'r disgrifyddion rolau yn cael eu cyfuno. Er enghraifft, disgwylir i Gadeiryddion Pwyllgorau Sgriwtini a Throsolwg ymgymryd â'r disgrifyddion rolau ar gyfer :

- Aelodau etholedig
- Aelodau pwyllgorau trosolwg a sgriwtini
- Cadeiryddion pwyllgorau trosolwg a sgriwtini.

Mae cytuno i symud ymlaen gyda disgrifyddion rolau a manylebau personol yn cael ei weld fel y math o arfer dda a ddisgwylir gan awdurdod lleol blaengar ac mae'n cymryd camau cadarnhaol i helpu aelodau i roi sylw i'w hanghenion datblygu fel y gellir eu cynorthwyo gyda'u gwaith fel cynghorwyr. Bydd yn siŵr o gefnogi gwaith datblygu i'r dyfodol ar ennill y Siarter Aelodau ond bydd hefyd yn cadarnhau i'r Bwrdd Adfer bod bwriad gwirioneddol i newid agwedd yr aelodau eu hunain tuag at eu rôl.

**Argymhelliad:** Bod pob aelod yn unigol yn arwyddo ac yn ymrwymo i'r disgrifyddion rôl perthnasol a bod Cyngor Sir Ynys Môn yn mabwysiadu ar unwaith yr amrediad llawn o ddisgrifyddion rolau ar gyfer yr amryfal swyddogaethau sydd gan aelodau etholedig.

## Strategaeth Datblygu Aelodau ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn

### Rhagarweiniad

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ei bod hi'n bwysig cynnig cyfleon datblygu i'r holl gynghorwyr. Mae datblygiad parhaus yn hanfodol os yw aelodau am ddeall eu rôl sy'n newid ac yn datblygu'n barhaus, cwrdd â'r disgwyliadau cynyddol y mae'r etholwyr yn eu rhoi arnynt a siapio cenhadaeth, gweledigaeth a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer gwelliant parhaus.

Trwy gynnig i'r aelodau'r cyfle i ddatblygu eu hunain, mae'r awdurdod yn anelu at ddarparu ar gyfer yr aelodau'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau y maent eu hangen i'w galluogi i ymgymryd â'u swyddogaethau'n effeithiol mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

### Arweinyddiaeth

Mae'r broses datblygu aelodau yn cael ei harwain gan y Pencampwr Datblygu Aelodau, y Gweithgor Datblygu Aelodau ac uwch swyddogion gan gynnwys y Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol, y Swyddog Monitro a'r Uwch Swyddog Datbylgu.

Rôl y Pencampwr yw cadeirio'r gweithgor datblygu aelodau a hyrwyddo achos datblygu aelodau ymysg yr aelodau'n ehangach, cynrychioli anghenion yr holl aelodau am ddatblygiad a chynrychioli'r Awdurdod a rhwydweithiau y tu allan i'r Awdurdod lle mae hynny'n berthnasol ac yn briodol.

Rôl y gweithgor datblygu aelodau yw sicrhau datblygiad effeithiol a pharhaus yr aelodau tra'n dilyn hefyd yr egwyddorion yn Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. Bydd aelodau'r grŵp yn cynrychioli anghenion yr holl aelodau, yn ymgymryd â'r dasg ymarferol o ddatblygu cynlluniau a strategaethau, yn hyrwyddo datblygiad aelodau ledled yr awdurdod ac yn monitro camau gweithredu mewn perthynas â datblygu aelodau.

Bydd y Pwyllgor Safonau yn goruchwylio datblygiad aelodau gan gynnwys monitro data.

Mae'n gyfrifoldeb ar yr holl aelodau i ddatblygu'r sgiliau y maent eu hangen i wneud y swydd. Bydd yr awdurdod yn eu cefnogi i wneud hyn drwy eu helpu i nodi eu hanghenion a chymryd rhan yn y cyfleon datblygu.

### Deall anghenion aelodau

Mae'r awdurdod yn credu ei bod hi'n bwysig bod datblygiad aelodau yn seiliedig ar yr anghenion a fynegwyd ganddynt fel unigolion a aelodau phwyllgorau ynghyd â gofyniad yr awdurdod bod angen i aelodau weithio'n effeithiol yn y Cyngor ac yn y cymunedau. I'r perwyl hwn byddwn, fel enghraifft, yn:

- Darparu disgrifiad rôl ar gyfer yr holl aelodau wedi ei ddatblygu mewn cydweithrediad gyda'r aelodau i egluro eu swyddogaethau a chefnogaeth ar gyfer nodi anghenion datblygu.

- Gofyn i'r holl aelodau o leiaf unwaith y flwyddyn am eu hanghenion hyfforddi naill ai trwy gyfrwng holiadur neu drafodaeth gydag aelodau neu, yn achos aelodau sy'n derbyn lwfans cyfrifoldeb arbennig, drwy gael trafodaeth aelod i aelod bob blwyddyn ynghylch datblygiad personol.  Sefydlir hyn cyn Ebrill 2011.

- Annog aelodau i nodi cynllun datblygu personol ar ôl i'r asesiadau o angen cael eu cynnal.

**Darparu Cyfleon Datblygu**

Mewn ymateb i'r ymchwil y byddwn yn ei gynnal gyda'r aelodau i nodi eu hanghenion datblygu, byddwn yn:

- Datblygu, mewn ymgynghoriad gyda'r aelodau, rhaglen flynyddol o weithgareddau datblygu ac ynddi rybudd digonol ynghylch dyddiadau a themâu. (Gweler Atodiad 1).

- Darparu gweithgareddau datblygu mewn steil sy'n cyd-fynd â gofynion yr aelodau o safbwynt math o weithgaredd ynghyd â phwnc.  Gallai hyn gynnwys sesiynau briffio, papurau gwybodaeth, hyfforddi ac/neu fentora, ymweliadau, e-ddysgu, gweithdai anffurfiol neu gynadleddau.

- Creu "llyfryn i aelodau" o wybodaeth hanfodol i bob aelod.

- Neilltuo adnoddau'n benodol ar gyfer datblygu aelodau.

- Sicrhau ansawdd datblygu aelodau drwy gomisiynu'n ddethol hwyluswyr mewnol ac allanol.

- Darparu sesiwn gyflwyno gynhwysfawr ar gyfer aelodau etholedig newydd.

**Monitro a gwerthuso**

Bydd yr Awdurdod, drwy'r Gweithgor Datblygu Aelodau a'r Pwyllgor Safonau, yn gwerthuso'r hyfforddiant a roddir i aelodau ac yn defnyddio'r gwerthusiad hwn fel sylfaen i'r rhaglen ddatblygu flynyddol.  Yn y lle cyntaf, y sawl sy'n rhan o'r hyfforddiant, rheolwyr hyfforddi, hwyluswyr ac aelodau fydd yn gwerthuso.  Ar ôl cyfnod o ymarfer ac adlewyrchiad gall hyn fod fel rhan o'r cyfweliadau datblygu personol.

**Cydnabyddiaeth**

Bydd yr awdurdod yn mofyn cydnabyddiaeth o'i lwyddiant yn y maes datblygu aelodau drwy ymgeisio am Siartr Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau erbyn diwedd 2011.

**Atodiad 1**

**Rhaglen Datblygu Aelodau**

Bydd cynnwys y sesiynau cyflwyno a rhaglenni datblygu parhaus yn cael ei seilidig ar anghenion yr aelodau fel y dônt i'r amlwg. Mae'r Gweithgor Datblygu Aelodau wedi gwneud yr awgrymiadau canlynol ar gyfer ei gynnwys:

- Sut mae'r Cyngor yn gweithio, pwy fedr helpu
- Datblygu Polisi a Strategaeth
- Sgiliau ac Ymchwil TGCh
- Cyllid Llywodraeth Leol a phennu Cyllidebau
- Themâu Arweinyddiaeth cyfredol megis systemau Rheoli Darbodus
- Cyfranogiad dinasyddion
- Arweinyddiaeth Gymunedol
- Cynllunio
- Trwyddedu
- Cadeirio.
- Sgriwtini